Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Gwybodaeth am y Grantiau

Mae grantiau Taith yn cefnogi symudedd corfforol allanol a mewnol ymchwilwyr, myfyrwyr ôl-raddedig (PGR), a staff technegol sy'n cefnogi ymchwil, i ymgymryd â lleoliadau ymchwil, cyfleoedd rhwydweithio, neu gael mynediad at gyfleusterau arbenigol.

**Bydd gwerth y grantiau'n seiliedig ar y wlad yr ydych yn teithio iddi a chânt eu cyfrifo gan Taith. Mae'r cyfraddau cyllido y tu hwnt i reolaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Bwriedir i'r cyllid fod yn gyfraniad at gostau teithio a chynhaliaeth, gyda gogwydd Ewropeaidd, ac efallai na fydd yn talu cost lawn eich teithio yn enwedig os byddwch yn teithio y tu allan i'r UE.**

## Gellir ariannu'r deilliannau canlynol dan Taith:

- Cysylltiadau ymchwil dyfnach ac ystyrlon, cynlluniau cydweithio a mynediad at alluoedd a chyfleusterau ymchwil rhyngwladol a rennir.
- Hybu cydweithio byd-eang ym maes ymchwil a rhannu gwybodaeth.
- Meithrin cyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu sgiliau ymchwil drwy leoliadau.
- Cefnogi datblygiad gyrfa ymchwilwyr drwy fynediad at gynlluniau cydweithio, rhwydweithiau a chyfleusterau rhyngwladol.

## Llwybrau Cyllido

- Lleoliadau: 3 diwrnod i 2 fis
- Secondiadau: 14 diwrnod i flwyddyn

## Llwybrau Gwneud Cais

- O ran Symudedd Allanol/Tramor (Staff) gellir cael gafael ar ffurflen gais drwy'r hafan dudalen ymchwil Ymchwil | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (uwtsd.ac.uk) neu drwy e-bostio gareth.thomas@uwtsd.ac.uk.
- O ran Symudedd Allanol/Tramor (Ymchwilwyr Ôl-raddedig): gellir cael gafael ar ffurflen gais drwy'r hafan dudalen ymchwil Ymchwil | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (uwtsd.ac.uk) neu drwy e-bostio gareth.thomas@uwtsd.ac.uk.
- Symudedd Mewnol: gellir cael gafael ar ffurflen gais drwy eu sefydliad lletyol.

## Y broses ymgeisio

- Symudedd Allanol/Tramor (Staff a Myfyrwyr Ôl-raddedig): bydd ceisiadau'n cael eu hystyried o ran cymhwystra a'u gwirio o ran caniatâd (staff: cyfarwyddwr academaidd a chyfarwyddwr ymchwil; Myfyrwyr Ôl-raddedig: goruchwyliwr ymchwil a chyfarwyddwr academaidd) ac yna'n cael eu sgorio. Caiff ymgeiswyr wybod y canlyniad o fewn 14 diwrnod. Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn cael Llythyr Dyfarnu Grant Taith yn amlinellu faint a ddyfarnwyd iddynt a'r camau nesaf. Yna bydd angen i ymgeiswyr fewngofnodi i Moodle, a mynd i dudalen 'TAITH -Staff' neu 'TAITH- PGR' ar dudalen Moodle**.** Bydd angen i ymgeiswyr gwblhau pob tasg sydd wedi'i hamlinellu yn y deilsen 'Croeso'. Ar ôl i hyn gael ei gwblhau, rhoddir yr arian yn y cyfrif a nodwyd yn y Llythyr Cytundeb Grant.
- Symudedd Mewnol: bydd ceisiadau'n cael eu hystyried o ran cymhwystra a'u gwirio o ran caniatâd (sefydliadau lletyol a phartner) ac yna'n cael eu sgorio. Caiff ymgeiswyr wybod y canlyniad o fewn 14 diwrnod. Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn cael Llythyr Dyfarnu Grant Taith yn amlinellu faint a ddyfarnwyd iddynt a'r camau nesaf.

## Talu

Pan fydd pob tasg a amlinellir yn y deilsen 'Croeso' ar dudalen 'TAITH - Staff' neu 'TAITH- PGR' ar Moodle wedi'u cwblhau awdurdodir taliad i'r cyfrif a nodwyd yn y Llythyr Cytundeb Grant.

## Adroddiad

O fewn 5 wythnos i orffen y lleoliad symudedd, rhaid ffeilio adroddiad ôl symudedd ar Moodle yn asesu'r gweithgareddau a wnaed, yn unol â'r adran allbynnau ar y ffurflen gais.

## Rheoli Risg

Cynhelir asesiad risg llawn ar gyfer pob lleoliad symudedd. Rhoddir templed asesiad risg i gyfranogwyr ar dudalen Moodle a rhaid ei gwblhau cyn y gellir awdurdodi lleoliad symudedd.

## Cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn draddodiadol

Bydd cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol gan gynllun Symudedd Ymchwil Taith a bydd yn cynnwys gweithredoedd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys: oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd

Tîm Symudedd Ymchwil Taith yn monitro'r nodweddion gwarchodedig hyn yn weithredol ac yn cymryd camau cadarnhaol i hyrwyddo a gwella cyfranogiad gyda'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

## Yr Iaith a'r Diwylliant Cymraeg

Disgwylir i bob cais ddangos sut mae'n bodloni nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg, a chodi proffil Cymru fel cenedl agored, eang ei gorwelion a chyfrifol ar lefel fyd-eang.

## Teithio Sy'n Gynaliadwy yn Amgylcheddol

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddangos sut mae eu trefniadau'n cefnogi teithio carbon isel. Ar gyfer lleoliadau symudedd i Ewrop, defnyddir carboniadur i bennu faint o garbon a ddefnyddir yn ystod y teithio arfaethedig ac anogir ffurfiau amgen sy'n defnyddio llai o garbon. Ar gyfer y gwledydd hynny sy'n ffinio â'r DU, dylai teithio carbon isel fod yn ddisgwyliedig a gellid mynnu hynny oni bai bod amgylchiadau lliniarol.

## Rheoli Lleoliadau Symudedd Mewnol

Ar gyfer lleoliadau symudedd mewnol rhaid cwblhau a llofnodi Cytundebau Cydweithio a Chytundebau Grant sy'n nodi cyfrifoldebau'r Brifysgol, y Sefydliad Partner, staff lletyol PCYDDS a'r cyfranogwr symudedd Mewnol.

Bydd y cytundebau hefyd yn amlinellu beth fydd yn digwydd os bydd partner yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau. Rhaid i gyfranogwyr mewnol, wedi iddynt gyrraedd, gael eu cefnogi drwy raglen neu amserlen o weithgareddau y cytunwyd arnynt yn unol â chyfarwyddyd a threfniadau'r sefydliad lletyol. Mae cysylltiadau allweddol; rhaglen groeso a chynefino; cymorth o ran llesiant a chymorth bugeiliol; ac unrhyw gymorth arbenigol ychwanegol (e.e. cyfeirio at grwpiau rhyddhad Undeb y Myfyrwyr, darparu mynediad at gwnsela drwy'r Gwasanaethau Myfyrwyr) yn gyfrifoldeb y sefydliad lletyol.

Rhaid i gyfranogwyr mewnol gwblhau asesiad risg, yn eu sefydliadau eu hunain, gan roi'r cyfle iddynt adolygu ac ystyried y risgiau, diwylliannol ac unigol, dan sylw yn eu lleoliad symudedd. Rhaid i gyfranogwyr mewnol gael yswiriant digonol ar gyfer eu teithio ac yswiriant atebolrwydd personol sy'n digolledu PCYDDS rhag unrhyw atebolrwydd yn ystod eu harhosiad.

## Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â mi ar **[gareth.thomas@uwtsd.ac.uk](mailto:gareth.thomas@uwtsd.ac.uk)**.